# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)22-09**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 14 Gorffennaf 2009

**Amser:** 08.30

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod 4ydd Llyfr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Rosemary Butler, Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

Alun Cairns, Rheolwr Busnes Ceidwadwyr Cymru

Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad

Sian Wilkins, Pennaeth y Gwasanaethau Siambr a Deddfwriaeth

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Dywedodd y Cadeirydd y cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Llywydd ac Aled Eirug.

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

**(i) BC(3)21-08 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 7 Gorffennaf 2009**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)22-09(p1)**

3.1 Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud datganiad ar Ymgynghoriad Comisiwn Iechyd Cymru yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth.

3.2 Nododd y Pwyllgor na ddylai'r Cyfnod Pleidleisio ddigwydd cyn 5pm ddydd Mawrth na dydd Mercher.

3.3 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes ar gyfer 14 ac 15 Gorffennaf 2009.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)22-09(p2)**

3.4 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**3** Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf **- BC(3)22-09(p3)**

3.5 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu'r dadleuon a ganlyn :

Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Grantiau Addysg wedi'u Neilltuo ar 23 Medi; a

Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar Rianta yng Nghymru a Darparu'r Cynllun Gweithredu Rhianta ar 7 Hydref

3.6 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.7 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y llywodraeth.

**4. Aelodau'r Cynulliad yn Cyflogi aelodau'r teulu**

**Rheol Sefydlog drafft ynghylch cyflogi aelodau'r teulu gan Aelodau'r Cynulliad - BC(3)22-09(p4)**

4.1 Bu'r Pwyllgor Busnes yn trafod papur ar ddiwygio'r Rheolau Sefydlog i gynnwys Rheol Sefydlog newydd 31A mewn cysylltiad â chyflogi aelodau'r teulu gan Aelodau'r Cynulliad.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y Rheol Sefydlog newydd yn amodol ar welliant mewn cysylltiad â chyn bartneriaid, sydd i'w gytuno ag aelodau Comisiwn y Cynulliad. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Rheol Sefydlog newydd yn cael ei ystyried gan y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn ar amser priodol yn ystod tymor yr hydref. Nodwyd na fyddai'r Rheol Sefydlog newydd yn dod yn weithredol nes bod yr Aelodau'n cael canllawiau ar ofynion y Rheol Sefydlog newydd.

**5. Deddfwriaeth**

**Y wybodaeth ddiweddaraf ar hynt deddfwriaeth yn y Cynulliad Cenedlaethol - Gorffennaf 2009**

**- BC(3)22-09(p5**

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor Busnes y papur ar hynt deddfwriaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a'i nodi.

**6. Pwyllgorau**

**Newid diwrnod ar gyfer cyfarfodydd ychwanegol y Pwyllgor Cyllid i drafod y gyllideb - BC(3)22-09(p6)**

6.1 Ar 30 Mehefin, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar gais gan y Pwyllgor Cyllid i gynnal 2 - 3 cyfarfod ychwanegol yn ystod tymor yr hydref i graffu ar gyllideb ddrafft y Llywodraeth ar foreau dydd Mawrth. Yn y cyfarfod heddiw cytunodd y Pwyllgor Busnes ar gais i newid diwrnod y cyfarfodydd hyn i brynhawn Llun.

**7. Trefniadau Cyflwyno**

# Toriad yr Haf: Trefniadau Cyflwyno ar gyfer y Gwasanaethau Siambr a Deddfwriaeth - BC(3)22-09(p7)

7.1 Cadarnhaodd y Pwyllgor Busnes y Dyddiau Cyflwyno penodol sef 14 - 18 Medi ar gyfer y Swyddfa Gyflwyno a'r Swyddfa Ddeddfwriaeth yn ystod toriad yr haf ar gyfer cyflwyno busnes y Cyfarfod Llawn yn y cyfnod yn union wedi'r toriad a gwelliannau i Fesurau arfaethedig yng Nghyfnodau 2 a 3.

7.2 Cytunodd y Pwyllgor hefyd ar y trefniadau ar gyfer cyflwyno Cwestiynau Ysgrifenedig. Byddai modd i'r Aelodau gyflwyno hyd at 5 cwestiwn ysgrifenedig yr wythnos trwy gydol toriad yr haf a byddai amser terfynol ar gyfer cyflwyno cwestiynau, sef 10:30 ar fore dydd Mercher bob wythnos.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**